Mewnol ac Allanol

**YSGOL MORGAN LLWYD**
Ffordd Cefn
Wrecsam
LL13 9NG
Ffôn: 01978 315050
E-bost: bocspost@ysgolmorganllwyd.wrexham.sch.uk

# PENNAETH

Llawn Amser - Parhaol

**L27 i L33 (£90,980 i £105,390)**

**Ar gyfer diwedd mis Ebrill 2025 neu cyn gynted a phosibl**

***Ysgol Morgan Llwyd***

***'Ym mhob llafur y mae elw'***

Mae Llywodraethwyr Ysgol Morgan Llwyd yn gwahodd ceisiadau ar gyfer swydd y Pennaeth.

Fel ysgol sy'n tyfu mewn niferoedd, mae'r ysgol hon ar y trywydd iawn i fod yn ysgol ragorol sy'n darparu addysg o'r radd flaenaf i bob disgybl. Rydym yn chwilio am arweinydd i gydweithio'n effeithiol gyda phob rhanddeiliad i adeiladu ar gryfderau'r ysgol a symud ymlaen at ddyfodol llewyrchus a llwyddiannus.

Mae Ysgol Morgan Llwyd yn gymuned falch a chroesawgar sy'n angerddol dros allu pob unigolyn i gyflawni ei botensial a'i uchelgais, ac i ddatblygu i fod yn aelod hapus, hyderus, annibynnol a chyfrifol o'i gymdeithas.
Rydym yn chwilio am arweinydd deinamig sydd â gwir awydd i wneud gwahaniaeth i addysg myfyrwyr cyfrwng Cymraeg Wrecsam ac i weithio'n agored, yn gynhwysol ac yn gydweithredol gyda'r Awdurdod Lleol ac a'r Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol (GwE).

Gwahoddir ceisiadau gan unigolion sydd yn:

- Dangos angerdd ac ymrwymiad i addysg cyfrwng Cymraeg pob disgybl – disgyblion cyfrwng Cymraeg a disgyblion sy'n dymuno cael mynediad drwy'r cynllun trochi
- Uchelgeisiol a gyda hanes o ddefnyddio arloesedd i ddatblygu gwelliant
- Arddangos sgiliau arwain cryf
- Arddangos arloesedd a chreadigrwydd wrth gyflwyno safonau academaidd rhagorol
- Ymrwymiad i holl fywyd yr ysgol a'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu, a chreu amgylchedd addysgol sy'n ysgogi, cefnogi a meithrin myfyrwyr
- Meddu ar ddealltwriaeth ddofn o'n gweledigaeth a'n gwerthoedd a dangos ymrwymiad iddynt
- Ysbrydoledig gyda Chymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (CPCP) a'r gallu i ddangos blaengaredd, brwdfrydedd a sgiliau arwain profedig.

Os ydych yn arweinydd ysbrydoledig a chryf, a bod gennych weledigaeth rymus ar sut i barhau i godi safonau hyd yn oed ymhellach, croesawn eich cais ar gyfer y swydd.

Mae’r gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg a’r Saesneg yn hanfodol ar gyfer y swydd hon.

**Mae'r swydd hon yn amodol ar Gofrestriad Cyngor y Gweithlu Addysg a’r CPCP.**

I drefnu ymweliad, neu am ragor o wybodaeth cyn cyflwyno’ch cais, cysylltwch â’r ysgol os gwelwch yn dda.

**I wneud cais**: cwblhewch y ffurflen gais ar-lein sydd i’w chael ar dudalen swyddi gwag Awdurdod Lleol Wrecsam (Swyddi Gwag) erbyn 12yp ddydd Llun yr 18fed o Dachwedd.

Mae Cyngor Wrecsam yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr cymwys beth bynnag fo'u hil, rhyw, anabledd, tueddfryd rhywiol, crefydd neu oedran.

**Bydd angen cynnal gwiriad DBS (Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd) ar gyfer y swydd hon.**

(Hysbyseb swydd ar gyfer Pennaeth Ysgol Morgan Llwyd, Wrecsam yw hon lle mae’r gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg a’r Saesneg yn **hanfodol**.)

(This is an advertisement for a Headteacher at Ysgol Morgan Llwyd, Wrexham, for which the ability to communicate through the medium of Welsh and English is **essential**.)

**Dyddiadau Allweddol**

**Os ydych yn dymuno ymweld â’r Ysgol cysylltwch yn uniongyrchol**

**DYDDIAD CAU: Hanner dydd, Dydd Llun 18fed Tachwedd, 2024**
**RHESTR FER: Dydd Llun 25ain Tachwedd, 2024**
**CYFWELIADAU: Dydd Mawrth 3ydd Rhagfyr, 2024**